




Cyngor Sir Ceredigion

**Yr ydym ni sydd wedi llofnodi isod yn ymrwymo i anrhydeddu
Cyfamod y Lluoedd Arfog ac i gefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog.**

**Yr ydym yn cydnabod y gwerth a ddaw i'n gwaith
ac i'n gwlad yn sgil Aelodau presennol, Aelodau wrth gefn
a Chyn-aelodau'r Lluoedd Arfog a'u teuluoedd.**

Llofnodwyd ar ran:

Cyngor Sir Ceredigion



Y Cyngorydd Paul Hinge, Cadeirydd

28 Medi 2021



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Cyfamod y Lluoedd Arfog

Cyfamod Parhaol Rhwng Pobl y Deyrnas Unedig Llywodraeth Ei Mawrhydi

a

Phawb sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y Goron A'u Teuluoedd

Dyletswydd gyntaf Llywodraeth yw amddiffyn y deyrnas. Mae ein Lluoedd Arfog yn cyflawni'r ddyletswydd honno ar ran y Llywodraeth, gan aberthu elfennau o ryddid sifil, yn wynebu peryglon ac ambell waith yn dioddef anafiadau difrifol neu farwolaeth yn sgil eu dyletswyddau. Mae teuluoedd hefyd yn cyflawni swyddogaeth hollbwysig o ran cynnal effeithiolrwydd gweithredol ein Lluoedd Arfog. Yn gyfnewid am hynny mae gan y wlad gyfan rwymedigaeth foesol i aelodau'r Llynges, y Fyddin, a'r Awyrlu Brenhinol, ynghyd â'u teuluoedd. Maent yn haeddu ein parch a'n cefnogaeth, ynghyd â thriniaeth deg.

Ni ddylai'r sawl sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, boed yn rheolaidd neu wrth gefn, neu sydd wedi gwasanaethu yn y gorffennol, na'u teuluoedd chwaith, fod o dan anfantais o gymharu â phobl eraill o ran cael gwasanaethau cyhoeddus a masnachol. Mae'n briodol rhoi ystyriaeth arbennig mewn rhai achosion, yn enwedig yn achos y rhai sydd wedi rhoi i'r eithaf ac sydd wedi'u hanafu neu wedi cael profedigaeth.

Mae'r rhwymedigaeth hon yn cynnwys cymdeithas gyfan: mae'n cynnwys cyrff gwirfoddol ac elusenol, sefydliadau preifat, ac ymddygiad pobl wrth gefnogi'r Lluoedd Arfog. Mae cydnabod y rhai sydd wedi cyflawni dyletswydd filwrol yn fodd o uno'r wlad ac yn dangos gwerth eu cyfraniad. Ni ellir dangos hyn yn fwy pendant na thrwy gynnal y Cyfamod hwn.

Rhan 1: Egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog

- 1.1 Byddwn ni yng Nghyngor Sir Ceredigion yn ymdrechu yn ein gwaith i gynnal prif egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog, sef:
- Na ddylai'r un aelod o Gymuned y Lluoedd Arfog fod o dan anfantais o gymharu â phobl eraill o ran cael gwasanaethau cyhoeddus a masnachol.
 - Ei bod yn briodol rhoi ystyriaeth arbennig mewn rhai achosion, yn enwedig i'r rhai sydd wedi'u hanafu neu wedi cael profedigaeth.

Rhan 2: Dangos ein Hymrwymiad

- 2.1 Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cydnabod y gwerth a dda i'n gwaith yn sgil Aelodau presennol, aelodau wrth gefn a chyn-aelodau'r Lluoedd Arfog a'u teuluoedd. Byddwn yn ceisio cynnal egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog drwy:
- Hyrwyddo'r ffaith ein bod yn sefydliad sy'n ystyriol o'r lluoedd arfog – drwy benodi Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog. Bydd yr Hyrwyddwr yn arwain y gwaith o gyflwyno fforwm partneriaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog yn chwarterol. Nod y fforwm yw dwyn cyrff cyhoeddus a chyrrff nad ydynt yn gyhoeddus ynghyd i sicrhau bod cydweithio er budd Cymuned y Lluoedd Arfog, fel y nodir yn y Cyfamod.
 - Ceisio cefnogi'r gwaith o gyflogi cyn-filwyr, hen ac ifanc, drwy weithio gyda'n Cymuned Lluoedd Arfog.
 - Ymdrechu i gefnogi'r gwaith o gyflogi gwragedd a gwŷr a phartneriaid y lluoedd.
 - Ceisio cefnogi ein gweithwyr sy'n dewis bod yn aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn, a hynny drwy ein polisiau cyflogaeth er mwyn darparu ar gyfer eu hyfforddiant a'u gwasanaeth lle bo'n bosib.
 - Anelu i ymwneud yn ddiwyd â Diwrnod y Lluoedd Arfog.
- 2.2 Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymrwymadau hyn drwy ein deunydd ysgrifenedig a'n gwefan, gan nodi sut y byddwn yn ceisio'u hanrhydeddu a gwahodd adborth gan gymuned y Lluoedd a'n cwsmeriaid ynghylch sut mae ein gwaith yn mynd rhagddo.